Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **12 Rhagfyr 2016** |
| **Amser:** | **13:00 – 13:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/11/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2087** | **Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu i fod yn rhan o drefniadau trin cwynion yn y dyfodol** | **Ar waith** |
| **PB 2088** | **Archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas â chraffu ar gwynion a monitro perfformiad** | **Ar waith** |
| **PB 2089** | **CM i gysylltu â rheolwyr llinell parhaol staff y SGC sydd ar secondiad er mwyn gofyn am i'r secondiadau gael eu hestyn tan ddiwedd Chwefror 2017** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2090** | **Y Rheolwr Rhaglen Ysgolion Rhanbarthol, CHTh, ALP a Rheolwyr y Tîm Troseddwyr Ifainc i fwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid** | **Ar waith** |
| **PB 2091** | **Yr Heddlu i rannu ei ymateb drafft i lythyr CPSH mewn perthynas â'r rhaglen galluoedd arbenigol â SCHTh ar gyfer ystyriaeth er mwyn cyflwyno ymateb ar y cyd** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2092** | **Trafod cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **Cariwyd drosodd i'r cyfarfod nesaf** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 12/12/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB T2 17** | **Cymeradwyodd y CHTh rhoi'r cytundeb ar gyfer diweddaru Ystafell Hydra HDP i gwmni Critical Simulations Cyf am £32,500** | **PSA** |

| PB T2 18 | Cymeradwyodd y CHTh wobrwyo'r cytundeb TCC porthladdoedd | PSA |
|---|---|---|

Croesawodd y CHTh yr aelodau i'r cyfarfod, a oedd wedi'i alw er mwyn ystyried adroddiadau o'r adran gaffael a oedd angen eu cymeradwyo er mwyn symud ymlaen cyn diwedd y flwyddyn.

**Materion i'w hystyried**

***Cytundeb TCC porthladdoedd (cyfyngedig)***

Roedd y papur cyfyngedig wedi'i ystyried gan y CHTh cyn y cyfarfod. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwywyd y cytundeb.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo'r cytundeb TCC porthladdoedd**

***Tendr sengl – diweddaru Ystafell Hydra***

Cyflwynodd y CC yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwobrwyo'r cytundeb. Bydd unig gyflenwr y cyfleuster Hydra'n symud i system sy'n seiliedig ar gwmwl, gan arwain at yr angen ar gyfer diweddaru Ystafell Hydra HDP er mwyn cynnal cydweddiad â'r system genedlaethol. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau, a rhoddwyd cymeradwyaeth i barhau.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh rhoi'r cytundeb ar gyfer diweddaru Ystafell Hydra HDP i gwmni Critical Simulations Cyf am £32,500**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB 2087 / 2088 – trin cwynion. Dywedodd CM bod Kerrie Phillips yn gweithio ar gynllun prosiect i symud ymlaen â'r argymhellion ar ddyfodol y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar hyn o bryd. Cadarnhaodd CB bod diweddariadau o ran cynnydd wedi'u trefnu ar gyfer agendau cyfarfodydd Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

Awgrymodd y CHTh ei fod yn adolygu'r cofnod gweithredoedd byw er mwyn adolygu pa rai y dylid eu cau a pha rai y dylid eu dwyn i sylw'r Prif Gwnstabl newydd, Mr Mark Collins. Dywedodd y CHTh bod angen trafod trefniadau llywodraethu yn y dyfodol gyda Mr Collins ar ôl iddo gychwyn ei swydd. Roedd y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr wedi'i

drefnu ar gyfer 3 Ionawr. Awgrymodd CM y dylid gohirio'r cyfarfod tan yr wythnos ganlynol er mwyn caniatáu amser ar ôl y gwyliau Nadolig i ystyried trefniadau ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd y dylid gosod Cylch Gorchwyl y Bwrdd ar yr agenda ar gyfer ei adolygu.

**Cam gweithredu: Symud y Bwrdd Plismona a drefnwyd ar gyfer 3 Ionawr 2017 i'r wythnos yn cychwyn 9 Ionawr a'r CHTh i adolygu'r rhestr camau gweithredu a'r blaenraglen waith cyn y cyfarfod cyntaf**

**Cam gweithredu: Adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Plismona yn y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr**

PB 2091 – ymateb i lythyr galluoedd arbenigol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod y llythyr wedi cynrychioli safbwyntiau'r PG a'r CHTh ar y cyd. Cadarnhaodd y PSA ei bod hi wedi sicrhau bod ymateb ar y cyd yn cael ei gyflwyno. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r mater hwn, a daethpwyd i gytundeb y byddai'r eitem yn cael ei dwyn ymlaen ar gyfer ei thrafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Trafod galluoedd arbenigol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol**

PB 2092 – cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu. Awgrymodd y PSA y dylid dwyn y mater ymlaen ar gyfer ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona pan fydd y Prif Gwnstabl newydd wedi cychwyn ar ei waith.

**Materion o ddiddordeb arbennig**

Rhoddodd y CC drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol. Roedd y CHTh yn ymwybodol bod swyddog wedi'i ddedfrydu i 6 mis o garchar. Roedd 8 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y CHTh ei fod yn derbyn diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â hyn.

Soniodd y CC am adroddiad AHEM diweddar a oedd yn nodi bod angen i'r Heddlu wella. Dywedodd y CHTh ei fod wedi trafod y mater gyda'r PG a'r DBG newydd, a'i fod wedi cynnal cyfweliad radio mewn ymateb i'r adroddiad.

Roedd y CHTh yn disgwyl y byddai manylion y model costio newydd ar gyfer Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu'n cael eu cadarnhau yng nghyfarfod Bwrdd nesaf y gwasanaeth ym mis Ionawr. Roedd hi'n debygol y gallai'r gost ar gyfer HDP leihau o £870,000 i £300,000 dros dair blynedd. Dywedodd y CC bod y gostyngiad wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chysylltiad gwrthderfysgaeth a chanolfannau ar gyfer gweithredu ohonynt yn y dyfodol.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r uwch-gynhadledd cynllunio ariannol diweddar. Roedd y CHTh yn teimlo bod cyfraniadau arbennig o dda o gan aelodau Pwyllgor Archwilio a Chyd-archwilio Cymru. Roedd y CHTh yn ystyried ei bod hi'n berthnasol cynnal cyfarfod mewnol er mwyn mynd ar drywydd camau gweithredu o'r uwch-gynhadledd yn gynnar ym mis Ionawr.

**Cam gweithredu: Trefnu cyfarfod mewnol er mwyn mynd ar drywydd camau gweithredu o'r uwch-gynhadledd cynllunio ariannol ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 9 Ionawr 2017**

Dywedodd y PSA y byddai dau gynrychiolydd o'r Swyddfa Gartref yn ymweld â HDP yn ddiweddarach yn yr wythnos, gyda chyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r PSA a'r CC a'r arweinydd cydweithio, er mwyn trafod fformiwla ariannu'r heddlu. Dywedodd y CHTh y byddai'n cynrychioli CHTh Gogledd Cymru mewn galwad cynhadledd gyda'r Grŵp Aur yn ddiweddarach, ac estynnodd groeso i'r CC a'r PSA ymuno ag ef.

Byddai'r Cynllun Heddlu a Throseddu drafft ar gyfer 2016-20 yn cael ei ystyried gan y CHTh yn ddiweddarach yn yr wythnos.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/12/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB 2093** | **Trafod galluoedd arbenigol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol** | **CB** |
| **PB 2094** | **Symud y Bwrdd Plismona a drefnwyd ar gyfer 3 Ionawr 2017 i'r wythnos yn cychwyn 9 Ionawr a'r CHTh i adolygu'r rhestr camau gweithredu a'r blaenraglen waith cyn y cyfarfod cyntaf** | **CB** |
| **PB 2095** | **Adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Plismona yn y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr** | **CM** |
| **PB 2096** | **Trefnu cyfarfod mewnol er mwyn mynd ar drywydd camau gweithredu o'r uwch-gynhadledd cynllunio ariannol ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 9 Ionawr 2017** | **PSA** |